

**Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod y Panel Cyngori ar
Amaethyddiaeth (AAP)
Cyfarfod 11 – 4 Medi 2018**

Hafod y Hendre, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanfawr, Llanfair-ym-muallt

Presennol

Lionel Walford – Cadeirydd
Peter Rees – Aelod Annibynnol
Steve Hughson – Aelod Annibynnol
Darren Williams – FUW
Bernard Griffiths - FUW
Will Prichard – NFU
Dylan Morgan – NFU
Kate Tandy - NFU
Ivan Monckton - UNITE
Paddy McNaught – UNITE
Bridget Henderson - UNITE

Helen Snow – Geldards
Luke Crossman - AHDB

Spencer Conlon – Llywodraeth Cymru
Ryan Davies – Llywodraeth Cymru
Karla Price – Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau

Nick Fenwick – FUW
David Swales - AHDB

Eitem 1 - Croeso

Croesawodd y Cadeirydd y mynychwyr i'r cyfarfod gan nodi dau ymddiheuriad.
Hefyd croesawodd Bernard Griffiths (FUW) a Kate Tandy (NFU) i'w cyfarfod cyntaf ynghyd â Luke Crossman (Siaradwr Gwadd – AHDB).

Eitem 2 – Diweddariad gan y Cadeirydd

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd arno.

Eitem 3 – Cymeradwyo Nodiadau'r Cyfarfod Blaenorol (14 Mehefin 2018)

Trafodwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel.

Hefyd trafodwyd y Pwyntiau Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol. Hysbyswyd y Panel bod y weithdrefn o ran Asesiadau Effaith wedi'i newid yn sylweddol ond rhoddir diweddariad llawn yn ystod y cyfarfod nesaf ar ôl derbyn hyfforddiant priodol.

Caiff papur ar Statws Cyflogaeth ei lunio i ystyried y categorïau gwahanol o bobl ar ffermydd a chaiff ei drafod yn ystod y cyfarfod nesaf.

Cynhaliodd y panel drafodaeth ar bapur yr Undebau Amaeth ar Strwythur y Gorchymyn Cyflogau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod blaenorol. Cytunwyd y caiff hyn ei drafod yn fanylach yn nes ymlaen yn y cyfarfod.

Eitem 4 – Papur Comisiynu gan AHDB

Rhoddodd Luke Crossman, siaradwr gwadd o AHDB, gyflwyniad anffurfiol i'r Panel ar y sefyllfa ar hyn o bryd a'r sefyllfa ar ôl Brexit a'r Golygiadau i Gymru.

Eitem 5 – Darpariaeth Band Eang yng Nghymru

Codwyd pryderon ynghylch cyflymder band eang yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac yn aml nid oes modd i BT gysylltu â'r blwch cyswllt agosaf os ydyw wedi'i leoli mewn cod post gwahanol. Teimlwyd y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r mater. Cytunwyd i nodi eu pryderon ar bapur er mwyn iddynt gael eu trosglwyddo i'r adran berthnasol.

Eitem 6 – Papurau i'w nodi o Astudiaeth LMI Brookdale

Cynhaliodd y Panel drafodaeth ar y dogfennau ynghylch moderneiddio'r Gorchymyn a'r data angenrheidiol er mwyn cyflawni hyn. Mae angen i'r Panel benderfynu'r ffordd ymlaen o ran paratoi'r Gorchymyn i Gymru – bydd hyn yn mynd i'r afael â'r mater ynghylch pa ddata y mae ei angen. Yna gall Llywodraeth Cymru ofyn a yw'r data hwn ar gael ac os nad yw'r data ar gael sut gallwn dderbyn y data y mae ei angen i sicrhau ei fod yn gadarn a bydd yn gwrthsefyll Asesiad Effaith.

Eitem 7 – Rhoi ystyriaeth i'r materion cyfreithiol a godwyd gan Helen Snow y mae angen mynd i'r afael â hwy ar gyfer 2019 a'r ffordd ymlaen ar gyfer 2020

Aeth Helen drwy'r papur a osododd y materion cyfreithiol a godwyd ynghylch Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2018 yn unig. Ailddatganwyd y cafodd ei benderfynu yn ystod y cyfarfod blaenorol ar 14^{eg} Mehefin 2018 y byddai'r Panel yn ceisio gwneud newidiadau lleiafysmiol i Orchymyn 2019 yn unig gan edrych ar ddechrau rhoi ystyriaeth i newidiadau sylweddol i baratoi ar gyfer Gorchymyn 2020. Ar sail hynny, ymhlith yr ystyriaeth a roddir i'r materion roedd argymhelliad o ran a ddylid mynd i'r afael â hwy yng Ngorchymyn 2019 neu a ddylid eu cynnwys fel rhan o'r newidiadau ehangach dan ystyriaeth ar gyfer Gorchymyn 2020. Ymhlith y materion roedd:

- Diffiniad "Prentis" o dan Erthygl 11 y Gorchymyn
- Pryderon gwahaniaethu ar sail oedran o ran goramser

- “Diwrnodau cymwys” fel rhan o gyfrifiadau a darpariaethau gwyliau blynyddol

Nodwyd y gellid ymdrin â'r mater cyntaf a'r trydydd mater yn weddol syml yng Ngorchymyn 2019.

Trafodwyd geiriad newydd ar gyfer Erthygl 11 a chytunwyd arno'n unfrydol gan y Panel. Hefyd trafodwyd bod y Panel yn newid diffiniad “diwrnodau cymwys” yn y Gorchymyn i gyd-fynd â Chyfraith Cyflogaeth y Deyrnas Unedig.

I'w wneud yn symlach i gyflogwyr a chyflogeion cytunwyd y rhoddir Crynodeb Gweithredol ar flaen y canllawiau i esbonio'r newidiadau ar gyfer 2019.

Nodwyd bod y Comisiwn Hawliau Dynol wedi codi pryderon ynghylch gwahaniaethu ar sail oedran o ran cyflogau amaethyddol. Fodd bynnag, ceir rhesymau dros gyfiawnhau'r bandio oedran yn yr un ffordd ag y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig eisoes yn gosod bandiau oedran ar gyfer yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Cytunodd y Panel y gellid edrych ar hyn o dan newidiadau mwy cynhwysfawr ar gyfer Gorchymyn 2020.

Eitemau 8 a 9 – Cyflwyno Papurau Cyflogwyr (Undebau Amaeth) a Phapurau Cyflogeion (Unite)

Cyflwynodd y ddwy blaid eu papurau yn nhermau eu safbwyntiau ar unrhyw gynnydd yng Nghyflogau Amaethyddol o 1^{af} Ebrill 2019. Cytunwyd bod y ddwy blaid wedi rhoi cyflwyniadau ardderchog a chânt eu trafod ymhellach.

Eitem 10 – Trafodaeth ynghylch fersiwn ddrafft Gorchymyn 2019

Cytunwyd gan y Panel y byddai'r strwythur graddio'n aros yr un peth ar gyfer 2019 ond byddai'n cael ei gynnwys yn y gwaith o foderneiddio'r Gorchymyn o 2020. Bydd hyn yn rhoi amser i'r Panel dderbyn y data ychwanegol angenrheidiol.

Trafodwyd y graddfeydd ar gyfer 2019. Ar ôl tair rownd o drafodaethau rhwng y cyflogwyr (NFU / FUW) a'r cyflogeion (Unite) nododd yr aelodau Annibynnol y cafwyd symud ar y ddwy ochr ac er nad oeddent wedi cyrraedd y man delfrydol roedd y ddwy ochr yn fodlon ar gynnal pleidlais.

Cynnig:

I dderbyn cynnydd 1.9% NFU/FUW ar lwfans pob gradd: 4 o blaid a 2 yn erbyn.

I dderbyn ffigwr Unite: 2 o blaid a 4 yn erbyn.

Eitem 11 – Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd unrhyw fater arall a daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.